


Tocio Gwinwydd yn ystod y Gaeaf – Taflen Ffeithiau

Cefndir:

Mae tocio gwinwydd yn ystod y gaeaf yn orchwyl y bydd rhaid ei chyflawni bob blwyddyn yn ystod cyfnod diymadferth y gaeaf. Ystyrir mai dyma'r gorchwyl pwysicaf a wneir yn ystod blwyddyn y winllan, oherwydd bydd y dull o docio'r gwinwydd yn dylanwadu'n gryf ar y canlynol:

- Cryfder twf y llystyfiant a gynhrychir yn ystod tymor yr haf dilynol
- Cyfanswm posibl y cnwd a gynhrychir
- Y lefelau aeddfedrwydd posibl y gellir eu cyflawni
- Lefel y straen yn sgil clefydau ffwngaidd yn ystod tymor yr haf
- Cost cynhyrchu grawnwin
- Y perygl o golli'r cnwd oherwydd difrod yn sgil barrug yn y gwanwyn
- Oes gynhyrchiol y gwinwydd


Mae gan docio yn ystod y gaeaf gysylltiad agos â'r rhan fwyaf o dasgau eraill a wneir yn ystod blwyddyn y winllan, a dylid ystyried hyn wrth wneud penderfyniadau ynghylch sut i docio eich gwinwydd. Mae'r darlun isod yn dangos y dylanwadau sy'n bodoli rhwng y tasgau niferus a'r materion sy'n dod i'r amlwg mewn gwinllan bob blwyddyn:



Ffisioleg Gwinwydd

Er mwyn deall goblygiadau ein dull o docio gwinwydd, mae'n bwysig deall ychydig am ffisioleg y planhigyn. Mae hyn yn cyfeirio at y gweithgarwch biolegol sylfaenol a wneir gan y gwinwydd.

- 1) Dosbarthu Carbohydradau Mae dail gwinwydd yn debyg i baneli solar. Byddant yn amsugno golau'r haul (ynni solar) ac yn ei droi yn garbohydrad. Yna, bydd y gwinwydd yn dosbarthu'r carbohydrad hwn yn fewnol, ac yn ei ddsrannu i organau amrywiol, megis y boncyff, y gwreiddiau, y blagur, y grawnwin ac ati. Mae'r darlun isod yn dangos y prif organau sy'n defnyddio'r carbohydrad a gynhyrchir, ac ym mha drefn - gan gychwyn â'r dail.



Gallwn weld o'r darlun uchod mai organau mwy parhaol y winwydden yw'r rhai olaf i gael ynni carbohydrad. Os bydd gormod o alw gan y dail a'r ffrwyth, ni fydd y blagur, y boncyff a'r gwreiddiau yn cael digon - a bydd hyn yn niweidio cyfanswm y cnwd yn y tymor hir a hirhoedledd y winwydden.

- 2) Sychu'r meinwe fasgwlaidd fewnol, ar ôl gwneud y toriadau tocio. Os caiff gwinwydden ei thorri wrth gael ei thocio, bydd darn o feinwe gwywedig yn ffurfio ar wyneb y toriad ac yn ymledu i lawr i'r winwydden. Ni ellir osgoi hyn, oherwydd bydd yn rhaid tocio gwinwydd bob gaeaf. Os gwneir toriadau ar hap dros nifer o flynyddoedd, bydd darn sylweddol o'r feinwe fewnol yn marw, ac felly, bydd yn atal y nodd rhag llifo o'r gwreiddiau, i fyny'r boncyff ac i'r blagur gwyrdd. Os caiff y winwydden ei thocio'n ofalus a chaiff y pren 'iau' yn unig ei docio, bydd llawer llai o feinwe gwywedig. Bydd hyn yn helpu i sicrhau oes gynhyrchiol hirach. Mae gwybodaeth fanylach am y dull hwn o docio ar gael trwy droi at www.simonitesirch.com



Mae'r winwydden ar y chwith wedi cael ei thocio ar hap, ac mae darn sylweddol o feinwe gwywedig wedi ffurfio ar yr ochr chwith. Ni all unrhyw nodd lifo trwy'r rhan hon bellach, oherwydd mae'n feinwe farw. Mae'r winwydden ar y dde wedi cael ei thocio gan sicrhau y gwneir toriadau bychan yn unig, ac mai dim ond pren ifanc (hyd at 2 flynedd oed) a gaiff ei dorri.

Gelwir hyn yn ddull tocio Simonit a Sirch, ac mae'n cynnal llif di-dor o nodd o'r gwreiddiau, i fynyr boncyff ac i'r dail.

Tocio yn ystod y Cyfnod Sefydlu

Mae'r tair blynedd gyntaf yn gyfnod hollbwysig i'r gwinwydd ifanc, oherwydd byddant yn canolbwyntio ar dyfu'r system gwreiddiau y mae arnynt ei hangen i gynhyrchu ffrwythau am nifer o flynyddoedd.

Yn aml iawn, bydd tyfwyr yn ceisio gorfodi'r winwydden i gynhyrchu gormod o ffrwythau yn rhy gynnar yn ystod oes eu gwinwydd. Mae hyn yn ddealladwy, oherwydd maent yn dymuno sicrhau enillion ariannol ar ôl cost cyfalaf gychwynnol plannu gwinllan. Yn y tymor hir, mae'n llawer doethach cychwyn cynyddio'r gwinwydd yn raddol:

- **Gaeaf Blwyddyn 1** (Cychwyn Tymor 2) – torruch y winwydden gan adael stwmpyn â dau flaguryn
- **Gaeaf Blwyddyn 2** (Cychwyn Tymor 3) - Ffurfiwch foncyff y winwydden. Gadewch i 3 neu 4 blaguryn dyfu o dop y boncyff yn ystod tymor 3. Fe wnaiff hyn gynhyrchu cnwd cyntaf bychan, a bydd yn caniatáu i'r winwydden barhau i dyfu ei gwreiddiau a chronni ynni carbhydrad yn ei boncyff newydd.



Chwith: Cafodd y winwydden hon ei thorri i ffurfio boncyff ar ddiwedd Blwyddyn 2. Mae hi wedi tyfu gwreiddiau cryf ac wedi cynhyrchu cnwd da. Tynnwyd y llun hwn yn ystod haf Blwyddyn 3.

Mae'n cynnig cans rhagorol i ffrwytho yn ystod ei phedwerydd tymor. Caiff un gansen ei chladdu, a chaiff dwy gainc adnewyddu (yn cynnwys 2 flaguryn yr un) eu cadw hefyd.

Trwy beidio claddu cansen sy'n ffrwytho ar ddiwedd Blwyddyn 2, mae'r winwydden wedi cychwyn cnydio yn raddol.

- Gaeaf Blwyddyn 3 (Cychwyn Tymor 4)



Cafodd y boncyff llwyd / brown ei ffurfio ar ddiwedd Blwyddyn 2, ac mae wedi aeddfedu yn ystod Tymor 3.

Cafodd y tri blaguryn uchaf ar y boncyff eu gadael i dyfu yn ystod Tymor 3. Mae'r blaguryn uchaf bellach wedi cael ei ddefnyddio i ffurfio cansen sy'n ffrwytho. Mae'r blagur isaf wedi cael eu defnyddio i ffurfio canghennau adnewyddu ar ochr chwith ac ochr dde'r boncyff.

Faint o Flagur a Ddylid Eu Gadael Wrth Docio?

Pan fydd eich gwinwydd wedi sefydlu, y ffordd symlaf o benderfynu faint o flagur y dylid eu gadael wrth docio yw cyfrif nifer y sbrigynnau cryf sydd wedi tyfu yn ystod y tymor blaenorol. Dyma'r dangosydd gorau o allu'r winwydden i dyfu.

Er enghraifft: Os allwch chi gyfrif 10 sbrigyn cryf ar eich gwinwydden, yna ceisiwch dyfu 10 sbrigyn arall y tymor nesaf, oherwydd dyna faint mae'r winwydden yn dangos y gall hi gynhyrchu. I wneud

hyn, dylid cadw oddeutu 12 blaguryn – bydd rhai ohonynt yn cael eu tynnu wrth deneuo blagur yn gynnar yn yr haf.

Mae hwn yn ddull syml iawn, ac ymhen dim, fe ddaw yn rhywbeth greddfoll wrth docio.


Gelwir hyn yn **'Gyfrif y Baich'**

Mae'n allweddol i chi osgoi unrhyw ddull o gyfrif nifer y blaqr sy'n trin pob gwinwydden yr un fath.

Trwy adael yr un nifer o flagur ar bob gwinwydden, bydd y gwinwydd gwan yn gwanhau rhagor a bydd y gwinwydd cryfach yn dod yn rhy egnïol.

Un Gansen neu Ddwy?

Ni ddylai cansen sy'n ffrwytho gynnwys mwy na 12 blaguryn. Mae'n bwysig penderfynu (ar ôl 'Cyfrif y Baich') a ddylid gadael 1 neu 2 gansen sy'n ffrwytho. Mae dwysedd y blanhigfa yn ganllaw da, oherwydd bydd hyn yn pennu faint o arwynebedd y pridd y gall system gwreiddiau bob gwinwydden ei ddefnyddio. Mae'r darlun isod yn dangos sut gall gwinllannau sydd â rhesi lletach a bylchau mwy rhwng planhigion gynnal gwinwydd sydd â dwy gansen sy'n ffrwytho. Ar y llaw arall, ar y cyfan, mae'n well tocio gwinwydd gan adael un gansen yn achos gwinllannau sydd wedi'u plannu'n ddwysach.



Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan Duncan McNeill o gwmni McNeill Vineyard Management Ltd